# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28 Mehefin 2001 i'w hateb ar 12 Gorffennaf 2001

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i ofyn yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd

**1. Elin Jones (Ceredigion);** Sut mae'n bwriadu hybu defnyddio Cynlluniau Talu Uniongyrchol yng Nghymru. (OAQ12626)

**2. Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd);** Faint o nyrsus a doctoriaid dan hyfforddiant sydd yng Nghymru heddiw o'i gymharu â'r blynyddoedd a fu. (OAQ12518)

**3. David Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i wella'r cyfleoedd i gael at ofal iechyd o ansawdd uchel yng Nghymru. (OAQ12614)

**4. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A wnaiff ddatganiad ar feddygaeth breifat o fewn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. (OAQ12516)

**5. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Sut mae'n bwriadu annog mwy o famau yng Nghymru i fwydo o'r fron. (OAQ12593)

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Sut mae'n bwriadu gwella lefelau cadw staff o fewn y gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. (OAQ12608)

**7. Dafydd Wigley (Caernarfon);** Sut mae'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau awdioleg yr NHS yn mynd rhagddo. (OAQ12610)

**8. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. (OAQ12602)

**9. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa fesurau all hi eu cymryd i gwtogi ar afiechyd a achosir gan lygredd amgylcheddol. (OAQ12617)

**10. Janice Gregory (Ogwr);** Beth yw'r diweddaraf ynghylch hynt y gwaith i gynhyrchu cyfarpar addas ar gyfer cynnal tonsilectomïau yng Nghymru. (OAQ12538)

**11. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau all hi eu cymryd i sicrhau bod y gwasanaethau pwysig a ddarperir yn ysbytau cymunedol bychain yng Nghymru yn parhau yn y tymor hir. (OAQ12536)

**12. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** Pa bolisïau y mae'n eu dilyn i drechu anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. (OAQ12517)

**13. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Sut mae nifer y nyrsus dan hyfforddiant yng Nghymru ar hyn o bryd yn cymharu â'r nifer sydd wedi gadael y proffesiwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. (OAQ12545) **[W]**

**14. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i annog plant Cymru i fwyta'n iach. (OAQ12596)**TYNNYWD YN OL**

**15. Phil Williams (Dwyrain De Cymru)**; A wnaiff ddatganiad byr ar rôl PPP/PFI yn y sector iechyd yng Nghymru. (OAQ12611)**TYNNYWD YN OL**

**16. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y cyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau deintyddion yr NHS yng Nghymru. (OAQ12501)

**17. Geraint Davies (Rhondda);** A wnaiff ddatganiad byr ar Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. (OAQ12618)**TYNNYWD YN OL**

**18. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A wnaiff ddatganiad ar y gwasanaethau oncoleg a radiotherapi a ddarperir yn Ysbyty Llwyn Helyg. (OAQ12515)

**19. Elin Jones (Ceredigion);** Pa gamau a gymerir i ymgynghori â'r staff ynghylch datblygu oriau gweithio hyblyg yn yr NHS. (OAQ12609)**TYNNYWD YN OL**

**20. Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff ddatganiad byr ar ddatblygu campws meddygaeth ym Mangor. (OAQ12615)**TYNNYWD YN OL**

**21. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn egluro a yw'r cynnydd yn yr achosion o awtistiaeth yn deillio o newidiadau mewn dulliau diagnosis neu ai ffactorau eraill sy'n gyfrifol am y cynnydd. (OAQ12601)

**22. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y gofal iechyd a gwasanaethau iechyd a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg. (OAQ12554)

**23. Helen Mary Jones (Llanelli);** Pa gamau ychwanegol fydd y Gweinidog yn eu cymryd dros

Gymru, yn dilyn trafodaeth Cyngor yr UE am argymhellion "Drinking of alcohol by children and adolescents" a’r gynhadledd ddiweddar yn Stockholm ar yr un pwnc. (OAQ12594)

**24. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin);** A wnaiff ddatganiad byr ar ddatblygu’r Strategaeth i’r Henoed yng Nghymru. (OAQ12625)**TYNNYWD YN OL**

**25. Mick Bates (Maldwyn);** A wnaiff ddatganiad ar y cynnydd yn yr achosion o awtistiaeth yng Nghymru. (OAQ12495)

**26. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** Beth fydd goblygiadau dileu’r awdurdodau iechyd i gynllunio adnoddau dynol yng Nghymru. (OAQ12595)**TYNNYWD YN OL**

**27. Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar waith y Grwp Llywio Cenedlaethol ar Adolygiad Dyrannu Adnoddau’r NHS a’i oblygiadau i Gymru. (OAQ12607)

**28. Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff ddatganiad byr ar y Strategaeth Iechyd Rhywiol. (OAQ12628)**TYNNYWD YN OL**

**29. Geraint Davies (Rhondda);** Sut mae’n bwriadu mynd i’r afael â’r problemau iechyd sy’n deillio o amddifadedd yn y Cymoedd. (OAQ12616)**TYNNYWD YN OL**

**30. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar lefel y rhestrau aros ar gyfer cleifion mewnol yng Nghymru. (OAQ12548)**TYNNYWD YN OL**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**1. Elin Jones (Ceredigion);** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i gwrdd â’r alwad am addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. (OAQ12582) [W]

**2. Brian Gibbons (Aberafan);** A oes cynlluniau gan y Gweinidog i gynnwys yr undebau llafur wrth hyrwyddo’r defnydd o gyfrifon dysgu unigol. (OAQ12483) [R]

**3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** Pryd gwnaeth y Gweinidog gwrdd â Gweinidog Addysg y DU ddiwethaf i drafod y problemau sy’n wynebu addysg uwch yng Nghymru. (OAQ12574)

**4. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff ddatganiad ar y camau y mae wedi’u cymryd i ddatblygu’r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol. (OAQ12490)**TYNNYWD YN OL**

**5. David Davies (Mynwy);** Pa fesurau newydd y mae hi’n bwriadau eu cyflwyno i amddiffyn

staff ysgolion rhag disgyblion a pherthnasau disgyblion treisgar. (OAQ12481)

**6. Janice Gregory (Ogwr);** A wnaiff y Gweinidog ddweud wrth y Cynulliad beth fu hynt gwaith ELWa ers ei lansio ar Ebrill 1 eleni. (OAQ112593)

**7. Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff y Gweinidog ryddhau manylion y bid a gyflwynwyd gan Gyd-bwyllgor Addysg Cymru i ddatblygu cynllun peilot o'r Fagloriaeth Gymreig. (OAQ12581) [W]

**8. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Faint o arian sydd ar gael i AALlau i wella adeiladau ysgolion eleni. (OAQ12485) [R]

**9. David Davies (Mynwy);** A wnaiff ystyried cyflwyno cynllun tebyg i'r cynllun cerdyn coch a fabwysiadwyd yn ysbytai'r NHS yn Lloegr, yn ysgolion Cymru er mwyn amddiffyn athrawon rhag trais a chamdriniaeth. (OAQ12480)

**10. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Pryd bydd y Cabinet yn dod i benderfyniad ynghylch sefydlu Ysgoloriaethau Cynnal Dysgwyr yng Nghymru. (OAQ12564)

**11. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A fydd y weinyddiaeth yn hyrwyddo sefydlu ysgolion arbenigol yn unol â'r Mesur Diwygio Addysg arfaethedig. (OAQ12526)

**12. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro);** A wnaiff ddatganiad ar unrhyw adnoddau ychwanegol a glustnodwyd yn ddiweddar ar gyfer addysg bellach yng Nghymru. (OAQ12508)

**13. Mick Bates (Maldwyn);** A wnaiff amlinellu ei hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o fewn addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru. (OAQ12576)

**14. Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd);** A oes unrhyw gamau wedi'u cymryd i ddarparu cymhorthion clyw radio i blant ysgol yng Nghymru. (OAQ12511)

**15. Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd);** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i annog ysgolion i gysylltu neu efeillio ag ysgolion yn Ewrop. (OAQ12488)

**16. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar anfantais gymdeithasol ym myd addysg. (OAQ12571)

**17. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** Pa gynlluniau sydd ganddi i drafod materion addysg sy'n berthnasol i Gymru gyda'r Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Addysg a Sgiliau. (OAQ12509)

**18. Karen Sinclair (De Clwyd);** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i amddiffyn ysgolion gwledig. (OAQ12586)

**19. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mesurau rhagweithiol y mae hi’n eu cymryd i hybu addysg uwch cyfrwng Cymraeg. (OAQ12579) [W]

**20. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad ar gynlluniau’r weinyddiaeth i gyflwyno ysgolion arbenigol yng Nghymru. (OAQ12528)

**21. Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch recriwtio athrawon yng Ngogledd Cymru. (OAQ12505)

**22. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Pa gamau penodol y bydd hi’n eu cymryd i ddenu mwy o bobl o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru i ddilyn cyrsiau addysg uwch ac addysg bellach. (OAQ12559)

**23. David Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa adnoddau ychwanegol sydd ar gael i fyfyrwyr yng Nghymru yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Rees. (OAQ12578)

**24. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gamau ydych chi’n eu cymryd i sicrhau bod yna ddigon o staff dwyieithog ar gael â hyfforddiant priodol er mwyn ymestyn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i blant 3 a 4 oed. (OAQ12523) [W]

**25. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad ynghylch barn y weinyddiaeth am y mesurau addysg a amlinellwyd yn Araith y Frenhines. (OAQ12525) **TYNNYWD YN OL**

**26. Gareth Jones (Conwy);** Pa ddigwyddiadau sy’n cael eu trefnu i ddathlu’r Flwyddyn Wyddoniaeth yng Nghymru. (OAQ12566)

**27. Janice Gregory (Ogwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd y system addysg ar gyfer trechu hiliaeth yng Nghymru. (OAQ12512)**TYNNYWD YN OL**

**28. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa gynlluniau sydd wedi’u gwneud i ddatrys y problemau sy’n wynebu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn ysgolion Cymru. (OAQ12575)

**29. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A wnaiff hi roi adroddiad ar y datblygiadau o ran dyrannu arian ychwanegol yn y sector addysg bellach yng Nghymru. (OAQ12507)

**30. Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau i

godi safonau yn ysgolion uwchradd Cymru. (OAQ12568)

I Bwyllgor y T

1. **Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** A oes unrhyw gynlluniau i ddarparu ffynhonnau dwr ychwanegol ar bob llawr o adeilad y Cynulliad. (OAQ12585)
2. **Elin Jones (Ceredigion);** Pa gamau ymlaen sydd wedi cael eu cymryd ar Gynllun Iaith Swyddfa’r Llywydd. (OAQ12588)
3. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff ddatganiad ar Strategaeth Trafnidiaeth Wyrdd fewnol y Cynulliad. (OAQ12535)**TYNNYWD YN OL**
4. **Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau ymlaen sydd wedi cael eu cymryd ar ddarparu lleoedd parcio ar gyfer staff cymorth. (OAQ12532)
5. **Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A yw’r Pwyllgor yn gallu rhoi adroddiad ar y datblygiadau diweddaraf wrth godi’r siambr ddadlau newydd. (OAQ12519)
6. **Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer swyddfeydd Aelodau’r Cynulliad sydd â system fideogynadledda sy’n gweithio. (OAQ12534)
7. **Peter Law (Blaenau Gwent);** Pa gynlluniau sydd i wella system Osiris yn swyddfeydd etholaethol Aelodau. (OAQ12520)
8. **Brian Hancock (Islwyn);** Pa drafodaethau diweddar y mae’r Pwyllgor wedi’u cael gyda Grwp Llywio Prosiect yr Adeilad Newydd o ran perfformiad amgylcheddol yr adeilad newydd. (OAQ12586)
9. **William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Pwyllgor roi adroddiad ar y datblygiadau diweddaraf o ran darparu lleoedd parcio i staff yn adeilad y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd. (OAQ12583)
10. **David Melding (Canol De Cymru);** Pryd y bydd ystafell ar gyfer myfyrio neu addoli yn cael ei sefydlu yn y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag OAQ1997JS a atebwyd ar 16 Tachwedd 1999. (OAQ12531)
11. **Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin);** Pa gamau sydd wedi’u cymryd i integreiddio ‘cynaliadwyedd’ i weithrediadau mewnol y Cynulliad. (OAQ12587)
12. **Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A allant ystyried hysbysebu cyhoeddus o dderbyniadau ar gynhelir gan Aelodau’r Cynulliad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar y sgrin blasma dreigl yn Neuadd y Cynulliad. (OAQ12584)